



ENTRE**COMP**EDU

Modiwl 4: Aseu



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cynnwys

Modiwl 4

4.1 Gwirio ac adrodd am gynnydd myfyrwyr mewn dysgu entrepreneuriaid	5
4.2 Rhannu adborth ar ddysgu entrepreneuriaid.....	19
4.3 Dathlu cynnydd a chyflawniad.....	28



Crynodeb Modiwl

Teitl	Assessu
Nod	Tynnu sylw at y math o arferion asesu a all gefnogi dysgu entrepreneuriaidd
Disgrifiad	Mae'r modiwl hwn yn disgrifio'r math o arferion asesu sy'n briodol i ddysgu entrepreneuriaidd. Mae'n dechrau trwy amlinellu pam ein bod yn asesu ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd integreiddio asesu trwy'r broses ddysgu. Darperir awgrymiadau ymarferol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag asesu meysydd penodol, megis ymdeimlad o fenter a chreadigrwydd. Mae'r modiwl yn pwysleisio gwerth maethu asesiad dan arweiniad myfyrwyr, rôl allweddol adborth o ansawdd uchel a'r angen i addysgwyr ddathlu cynnydd a chyflawniadau myfyrwyr mewn ystod o gyd-destunau bywyd go iawn.
Deilliannau dysgu arfaethedig	Erbyn diwedd y modiwl hwn, dylech: <ul style="list-style-type: none"> • nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol o ran addysg entrepreneuriaidd • gwerthuso a myfyrio'n feirniadol ar effaith y modd y bu i chi addysgu cymwyseddau entrepreneuriaidd • cymhwysio offer a strategaethau ymchwil mewn cyd-destunau addysg entrepreneuriaidd
Prif ddulliau dysgu	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen dan arweiniad • Arsylwadau ar fideos • Ymarferion creadigol • Gweithgareddau hunangyfeiriedig • Myfyrio ar brofiad personol
Cynnwys	<p>4.1 Gwirio ac adrodd ar gynnydd y myfyrwyr o ran dysgu entrepreneuriaidd</p> <p>4.2 Rhannu adborth ar ddysgu entrepreneuriaidd</p> <p>4.3 Dathlu cynnydd a chyflawniad</p>
Asesu	Ymarferion hunanasesu Myfyrdod grŵp Myfyrdod personol
Amser dangosol	3 awr



Cyflwyniad fideo i Fodiwl 4

Gwyliwch y cyflwyniad fideo byr hwn i Fodiwl 4



Link <https://youtu.be/qS-CquhpOr4>

4.1 Gwirio ac adrodd am gynnydd myfyrwyr mewn dysgu entrepreneuriaidd


Beth sy'n dod i'ch meddwl pan fyddwch yn meddwl am y geiriau 'cynnydd' ac 'asesu'?¹ Beth y gallai myfyrwyr ei ddweud?

Yn syml iawn, gellir disgrifio cynnydd wrth ddysgu fel yr hyn y mae myfyrwyr wedi'i ennill, o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau ac agweddau, rhwng dwy adeg benodol, er enghraifft rhwng dechrau a diwedd gwrs neu uned waith. Gellir defnyddio offer asesu amrywiol i fesur enillion o'r fath. Er enghraifft, gellir gofyn i'r myfyrwyr wneud yr un prawf cyn ac ar ôl dysgu a chymharu'r canlyniadau. Gall hyn ddatgelu 'gwerth ychwanegol' yr hyn y mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu dros gyfnod. Yr hyn sy'n fwy cymhleth (a dadleuol) yw pennu beth allai fod wedi achosi hyn a sut y defnyddir data o'r fath, er enghraifft i fesur effeithiolrwydd athrawon.

O ystyried natur yr hyn y mae bod yn entrepreneuriaidd yn ei olygu, mae'n anodd mesur cynnydd myfyrwyr mewn termau rhifiadol, pendant. Er enghraifft, sut y byddech yn mesur datblygiad myfyrwyr mewn creadigrwydd, cymryd risgiau ac ymdopi ag amwyster? Mae llawer o addysgwyr yn nodi nad yw cynnydd myfyrwyr yn dilyn patrwm llinol. Yn hytrach, mae'r cynnydd yn digwydd mewn hyrddiau. Ac mae pob myfyriwr yn unigolyn sydd ag amgylchiadau unigryw, sy'n golygu bod unrhyw wiriad o'i 'gynnydd' bob amser yn un amodol. Edrychwch ar y cartŵn enwog hwn o asesu sydd i'w weld ar nifer o safleoedd ar y Rhyngrwyd. Beth yw'r

¹ Mae'n werth nodi bod y term 'asesu' yn deillio o'r gair Lladin *assidere*, sy'n golygu 'eistedd wrth ochr rhywun neu gyda rhywun' (Wiggins 1993).





Ffigur 4.1. Cartŵn yn cyfleu heriau asesu

Ffynhonnell:

<https://scribblesandscrolls.files.wordpress.com/2014/07/assessment-cartoon.jpg>

Mae'n hawdd diystyru'r ffaith fod asesu ynddo'i hun yn fater o ganfod yr hyn y mae'r myfyrwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud ar adegau penodol, gan na allwn ddarllen eu meddyliau.²

Y peth pwysicaf un yw y dylai unrhyw dasg asesu fod yn ddilys ac yn ddibynadwy: mae dilys yn golygu bod yr asesiad yn mesur yr hyn sy'n cael ei honni, ac mae dibynadwy yn golygu y byddai'r canlyniadau'n debyg iawn pe bai'r dasg yn cael ei hailadrodd mewn cyd-destun arall. Mewn geiriau eraill, mae prawf dibynadwy yn golygu y byddai myfyrwyr sy'n gwneud y prawf yn cael yr un sgôr, ni waeth ble na phryd y maent yn gwneud y prawf. I egluro dilysrwydd, cymerwch fod arnoch eisiau mesur newidiadau posibl yn agweddau entrepreneuriaidd myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd. Gallech ddewis defnyddio holiadur fel eich prif offeryn asesu. Byddai angen i chi feddwl sut y mae'r cwestiynau'n cael eu geirio a pha raddfa i'w defnyddio i fesur. Er enghraifft, pe baech yn gofyn i'r myfyrwyr: 'Pa mor aml ydych chi wedi cyflwyno syniad o flaen y dosbarth yn ystod y mis

² Paul Black & Dylan Wiliam (2018) 'Classroom assessment and pedagogy, Assessment', in Education: Principles, Policy & Practice, 25:6, 551-575. Assessment tends to describe judgements on individual student performance and achievement of learning goals. Evaluation, on the other hand, refers to judgements on the effectiveness of schools, school systems and policies. See Nusche, D., Laveault, D., MacBeath, J. and Santiago, P. (2012) OECD Reviews of Evaluation and Assessment in Education: New Zealand 2011. Paris: OECD Publishing.



diwethaf?' mae graddfa rifyddol (0--- 1----2-----3-----4---5+ gwaith) yn fwy dilys na geiriau fel 'yn anaml', 'weithiau' ac 'yn aml' oherwydd gallai myfyrwyr ddehongli'r geiriau hyn mewn ffyrdd gwahanol. Gallai un myfyriwr feddwl bod 'weithiau' yn golygu dwywaith, a gallai myfyriwr arall feddwl ei fod yn golygu tair gwaith.

Mae'n bwysig hefyd fod athrawon a myfyrwyr yn deall yn iawn beth yw pwrpas tasg asesu, a sut y bydd y deilliannau'n cael eu defnyddio. Yn gyffredinol, mae tri phrif reswm dros asesu, ac mae lle i bob un mewn dysgu entrepreneuriaidd.

- darganfod pa gam, lefel neu safon y maent wedi ei gyrraedd, yn aml o gymharu â'u cyfoedion, er mwyn i ni allu adrodd am hyn (asesu dysgu)
- canfod beth y mae'r myfyrwyr yn ei wneud yn dda, meysydd i'w gwella a chynllun gweithredu i roi sylw i'r rhain (asesu ar gyfer dysgu)
- hybu cyfrifoldeb y myfyrwyr i asesu eu cynnydd eu hunain (asesu fel cyfleoedd dysgu).

Gellir defnyddio EntreComp fel pwynt cyfeirio ar gyfer pob un o'r dulliau hyn o asesu (gweler Tabl 4.1 isod).

	Asesu ar gyfer dysgu	Asesu dysgu	Asesu fel cyfleoedd dysgu
Diben	Darganfod beth mae myfyrwyr yn ei wneud yn dda, beth y mae angen ei wella a sut i wneud hyn	Canfod pa 'lefel' neu 'gam' y mae myfyrwyr wedi ei gyrraedd, o gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl gan rywun o'r un oedran (normau) neu feini prawf penodol	Er mwyn i fyfyrwyr fyfyrion ar eu dysgu wrth iddynt fynd yn eu blaenau fel bod modd iddynt wella



Dan arweiniad	Athrawon	Athrawon	Myfyrwyr
Pwynt cyfeirio EntreComp	Gellir defnyddio deilliannau dysgu EntreComp er mwyn gosod targedau 'Gallaf...' a rhannu meini prawf llwyddiant mewn gwersi	Gellir defnyddio lefelau hyfedredd EntreComp at ddibenion crynodol i wirio cynnydd myfyrwyr ar gamau gwahanol mewn prosiect	Gall myfyrwyr fonitro ac adolygu eu cynnydd eu hunain tuag at arddangos cymwyseddau entrepreneuraidd

Tabl 4.1 Ffyrdd o ddefnyddio EntreComp i gefnogi eich ymarferion asesu

Optional Going deeper 4.1: Asesu Creadigrwydd

Mae yna hefyd adnoddau darllen ychwanegol i'ch helpu i ddyfnhau eich gwybodaeth am feysydd penodol. Dyma *Mynd yn Ddyfnach* ar gyfer Modiwl 4 – yn achos adran 4.1, gall y bennod ar *Asesu Creadigrwydd* fod yn ddefnyddiol. Gellir dod o hyd iddi yma

Link: https://issuu.com/bantaniedu/docs/entrecompedu_cpd_module_4_-_go_deeper_4.1

Asesu dysgu

Mae'n gyffredin cymharu asesu â phroffion ac arholiadau, sy'n cael eu cynnal fel arfer ar ddiwedd cyfnod penodol er mwyn canfod beth y mae'r myfyrwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Mae asesiad o'r fath • ddysgu yn rhoi gwybodaeth i athrawon, rhieni, cyflogwyr a'r myfyrwyr eu hunain am y lefel neu'r safon a gyrhaeddwyd. Gall lywio gofynion tracio ac adrodd.



Yn EntreComp, mae yna ddisgrifwyr byr ar gyfer pob un o'r pedair lefel hyfedredd, ynghyd â sbardunau un gair sy'n nodweddu pob lefel (Tabl 4.2). Er enghraifft, ar y lefel **Sylfaen** prif bwrpas y profiad entrepreneuriaidd yw 'darganfod' ac 'archwilio.' Ar y lefel **Ganolradd**, mae'r myfyrwyr yn mynd ymlaen i 'arbrofi' a 'mentro'. Ar y lefel **Uwch**, mae'r myfyrwyr yn 'gwella' ac yn 'atgyfnerthu' eu dealltwriaeth, ond y ddau air sy'n nodweddu'r lefel **Arbenigol** uchaf o gymhwysedd yw 'ehangu' a 'thrawsnewid'.³

Mae esboniadau o bob un o'r sbardunau un gair hyn yn caniatáu i ni ddatblygu dealltwriaeth o sut y gall dysgwyr wneud cynnydd yn y cymwyseddau hyn, ac yn ein helpu i feddwl sut y gallai gweithgareddau dysgu gefnogi'r cynnydd hwn.

EntreComp Progression Model			
Foundation - Relying on support from others		Intermediate- Building independence	
Under direct supervision. (Includes, for example, support by teachers, mentors, peers, advisors, or consultancy services)	With reduced support from others, some autonomy and together with my peers.	On my own and together with my peers.	Taking and sharing some responsibilities.
1. Discover Level 1 focuses mainly on discovering your qualities, potential, interests and wishes. It also focuses on recognising different types of problems and needs that can be solved creatively, and on developing individual skills and attitudes.	2. Explore Level 2 focuses on exploring different approaches to problems, concentrating on diversity and developing social skills and attitudes.	3. Experiment Level 3 focuses on critical thinking and on experimenting with creating value, for instance through practical entrepreneurial experiences.	4. Dare Level 4 focuses on turning ideas into action in 'real life' and taking responsibility for this.
Advanced - Taking responsibility		Expert - Driving transformation, innovation, and growth	
With some guidance and together with others.	Taking responsibility for making decisions	Taking responsibility for contributing to complex	Contributing substantially to the development of the specific field.

³ Defnyddir iaith debyg gan EntreCompEdu sy'n ystyried addysgeg ymledol yn gam uchaf datblygiad proffesiynol.



	and working with others.	developments in a specific field.	
5. Improve Level 4 focuses on improving your skills for turning ideas into action, taking increasing responsibility for creating value, and developing knowledge about entrepreneurship.	6. Reinforce Level 6 focuses on working with others, using the knowledge you have to generate value, dealing with increasingly complex challenges.	7. Expand Level 7 focuses on the competences needed to deal with complex challenges, handling a constantly changing environment where the degree of uncertainty is high,	8. Transform Level 8 focuses on emerging challenges by developing new knowledge, through research and development and innovation capabilities to achieve excellence and transform the ways things are done.

Table 4.2 Lefelau cynnydd yn EntreComp

Asesu ar gyfer dysgu

Er hyn, mae ymchwilwyr yn dweud wrthym mai'r ymarferion asesu sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran gwella dysgu yw'r rhai ffurfiannol, lle defnyddir asesu **ar gyfer** dysgu. Er enghraifft, gall y math cywir o adborth parhaus helpu myfyrwyr i ddysgu o'u profiadau (gweler adran 4.2). Yr eironi yw bod sgorau profion yn codi pan fydd asesu ffurfiannol yn cael ei ddefnyddio'n dda.⁴ Ac mae yna lawer o dystiolaeth y dylid rhoi pwyslais ar asesu ffurfiannol, yn enwedig yn yr ysgol gynradd.⁵

Mae llawer o'r llenyddiaeth am addysg entrepreneuriaeth yn argymhell y dylid defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Anogir athrawon i rannu amcanion dysgu a meini prawf asesu â'r myfyrwyr fel nad oes unrhyw gyfrinachau. Nid oes rhaid i'r myfyrwyr ddyfalu beth y mae'r athrawon yn edrych amdano oherwydd bod y broses asesu yn weladwy ac mae pawb yn ei deall.

4 Kingston, N. M., & Nash, B. (2015). Erratum. *Educational Measurement: Issues and Practice*, 34(1), 55
5 Gweler, er enghraifft, Harlen, W. And Johnson, S. (2014) A review of current thinking and practices in assessment in relation to the Primary Years Programme, available at: <https://www.ibo.org/globalassets/publications/ib-research/assessmentintheypfinalreport.pdf>



Mae asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu yn cyflawni dau bwrpas gwahanol trwy wirio lle mae'r myfyrwyr wedi cyrraedd yn y broses ddysgu a sut y gallant wella. Mae'r naill a'r llall yn bwysig ynddynt eu hunain. Ond nid ydynt yn mynd yn ddigon pell os ydym am i'r myfyrwyr ddod yn ddysgwyr annibynnol ac amlygu'r math o gymwyseddau entrepreneuriaidd y mae galw mawr amdanynt. Ystyriwch yr enghreifftiau sydd ym Mlŵch 1.



- 1.2 Creadigrwydd, e.e. archwilio ac arbrofi â dulliau arloesol
- 2.1 Hunanymwybyddiaeth a hunaneffeithlonrwydd, e.e. nodi ac asesu cryfderau a gwendidau unigolion a grwpiau
- 3.1 Mynd amdani, e.e. gweithredu a gweithio'n annibynnol er mwyn cyflawni nodau
- 3.2 Cynllunio a rheoli, e.e. diffinio blaenoriaethau gwella a sut i gyflawni'r rhain
- 3.3 Ymdopi ag ansicrwydd, amwysedd a risg, e.e. ymdrin â sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym yn brydlon ac mewn ffordd hyblyg
- 3.5 Dysgu trwy brofiad, e.e. myfyrio a dysgu o lwyddiannau a methiannau

Blwch 1 Enghreifftiau o ddeilliannau dysgu ar gyfer cymwyseddau entrepreneuriaidd gwahanol yn EntreComp

Nid yw'r cymwyseddau hyn yn addas ar gyfer trefniadau asesu traddodiadol lle mae myfyrwyr yn gwneud profion papur a phensil ar ddiwedd cyfnod penodol. Mae ymarferiad Mynd yn Ddyfnach 4.1 yn trafod enghraifft yr heriau wrth asesu creadigrwydd, tra bo Mynd yn Ddyfnach 4.3 yn archwilio'r modd y mae'r syniad o fethiant yn rhywbeth i'w ddathlu mewn dysgu entrepreneuriaidd, yn groes i'r syniadau confensiynol am asesu.

Asesu fel cyfleoedd dysgu

O ganlyniad, mae galw ar ysgolion a cholegau i feddwl mewn ffordd wahanol ynglŷn â sut y maent yn asesu cymwyseddau entrepreneuriaidd. Mae cryn gefnogaeth i'r syniad o weld asesu **fel** cyfleoedd dysgu gyda myfyrwyr. Mewn geiriau eraill, wrth i'r myfyrwyr gyflawni tasgau, mae asesu'n rhan annatod o'r hyn y maent yn ei wneud. Nid yw'n cael ei weld fel ychwanegiad. Mae asesu fel



cyfleoedd dysgu yn canolbwyntio ar y *broses* o alluogi myfyrwyr i ymdopi ag anawsterau, dysgu o brofiad a gwneud cynlluniau realistig i wella eu dysgu.

Yn ymarferol, gallai hyn olygu bod myfyrwyr yn gosod amcanion dysgu entrepreneuriaidd realistig ar gyfer prosiect penodol, fel rhan o'u cymhwysedd o ran cynllunio a rheoli (3.2). Gallai olygu bod myfyrwyr yn rhoi adborth i'w gilydd ynglŷn â sut y gellid cryfhau eu syniadau. Gallent gyfeirio at restrau gwirio a fframweithiau eraill wrth iddynt fonitro ac adrodd am eu cynnydd eu hunain. Er enghraifft, gellir defnyddio fframiau siarad i gefnogi myfyrwyr, yn enwedig y rhai dihyder, a'u haddasu i hybu iaith entrepreneuriaidd (Ffigur 4.1).

Nid yw hyn yn golygu nad oes gan athrawon ran i'w chwarae yn y broses o wirio ac adrodd am gynnydd myfyrwyr. I'r gwrthwyneb, mae gan athrawon ran allweddol i'w chwarae wrth fonitro ansawdd asesu gan gymheiriaid a hunanasesu, gan ymyrryd yn ôl y galw i gywiro gwallau a chamsyniadau. Dylid annog myfyrwyr i gymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu a'u hasesu, wrth iddynt symud ymlaen â'u haddysg, ond dylem gofio o hyd mai dysgwyr ydynt, a'u bod yn gwneud camgymeriadau. Canfu Graham Nuthall fod 80 y cant o'r holl adborth y mae myfyrwyr yn ei gael yn adborth gan fyfyrwyr eraill, ond bod 80 y cant o'r adborth hwn yn anghywir!⁶

Yr hyn sy'n bwysig yw bod myfyrwyr yn dysgu o'r math iawn o adborth. Er gwaetha'r heriau sy'n gysylltiedig â hunanasesu ac asesu cymheiriaid, byddai'r rhan fwyaf o'r arbenigwyr yn y maes yn cytuno mai asesu fel cyfleoedd dysgu sydd 'fwyaf nodweddiadol o addysgeg entrepreneuriaidd'.⁷

Yn ymarferol, nid yw'r gwahaniaethau rhwng y tri dull o asesu yn hollgynhwysol. Dyweder, er enghraifft, eich bod yn rhoi prawf i fyfyrwyr er mwyn gweld beth y maent yn ei wybod yn barod am destun penodol (e.e. strategaethau marchnata, cynlluniau busnes, neu beth y maent yn meddwl y mae entrepreneuriaid yn ei

⁶Nuthall, G. (2007) *Hidden Lives of Learners*, NZCER.

⁷Morseli, D. (2019) *The Change Laboratory for Teacher Training in Entrepreneurship*, Springer, p.26.



wneud). Os ydych yn bwriadu defnyddio'r canlyniadau i gynllunio cyfleoedd dysgu ar gyfer y dyfodol, yna mae gan y prawf crynodol bwrpas ffurfiannol.⁸ Ar y llaw arall, os ydych yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r prawf mewn adroddiad terfynol cyn symud ymlaen at y testun nesaf, yna mae'n dod yn asesiad o ddysgu. Y peth pwysicaf yw eich bod chi a'r myfyrwyr yn deall yn iawn beth yw pwrpas unrhyw dasg asesu yr ydych yn ei gosod.

Er mwyn dangos sut y gallech gyfuno dulliau crynodol a ffurfiannol o asesu yng nghyd-destun dysgu entrepreneuriaidd, meddyliwch am brosiect lle gallech ofyn i'r myfyrwyr ddatblygu cynnyrch newydd. Ar y dechrau, dylai'r myfyrwyr wybod a deall beth yw'r deilliannau dysgu bwriadedig a'r meini prawf llwyddiant er mwyn cyflawni'r rhain.

Yn ystod y broses o ddatblygu eu syniad, gallech chi neu rywun arall roi adborth ffurfiannol ar hyd y llinellau hyn:

- Beth yw cryfderau a gwendidau'r syniad? Pa gyfleoedd allai gael eu darparu? (Cynhyrchu syniad)
- Os gofynnwn i dri myfyriwr wneud awgrym er mwyn gwella'r syniad, beth y byddent yn ei ddweud, o bosibl? (Profi cysyniad)
- A allwch awgrymu rhywun a allai brofi'r cynnyrch neu'r gwasanaeth (cwsmeriaid beta)?
- Faint o rwystrau posibl y mae angen eu goresgyn? (Dylunio prototeip)
- Faint o waith cynnal a chadw y mae ei angen? (Profi cynnyrch)

⁸ The distinction between summative and formative is summed up by Bob Stake: 'when the cook tastes the soup, that's formative; when the guests taste the soup, that's summative', quoted by Scriven, M. (1991) Evaluation Thesaurus, p.169.



- Sut y byddwch yn profi'r pris? ('Fel arfer, mae'n syniad da dechrau'n uchel a gostwng wedyn yn ystod y prawf i weld sut y mae hyn yn effeithio ar y gwerthiant') (Profi'r farchnad)
- A fyddwch yn cynnal digwyddiad arbennig i lansio'r cynnyrch neu'r gwasanaeth? (Lansio'r cynnyrch)⁹

Gallech hefyd roi adborth ar y sgiliau gweithio mewn tîm, mewn meysydd fel cydweithredu, cynllunio, a rheoli adnoddau, yn gysylltiedig â'r cymwyseddau yn EntreComp.

Os disgwylir i'r myfyrwyr wneud cyflwyniad ar gyfer eu cynnyrch newydd ar ddiwedd y prosiect, yna bydd eich pwyslais yn newid i olwg crynodol ar asesu. Ac erbyn hyn gallai'r meini prawf asesu ganolbwyntio ar sgiliau ar gyfer cyfathrebu'r syniad, ymgysylltu â'r gynulleidfa, rheoli amser, ac yn y blaen.

Wrth gwrs, nid oes rhaid i asesu crynodol ddigwydd ar ddiwedd prosiect. Gallech benderfynu yn gynnar yn y broses y dylai pob un o'r syniadau a gynigir gan y myfyrwyr fynd trwy brawf lle byddant yn cael marciau allan o 10, a bod unrhyw rai nad ydynt yn cyrraedd trothwy o 8 yn cael eu hatal rhag mynd ymlaen i gael eu hystyried ymhellach. Os bydd syniad yn cael sgôr isel, gallech benderfynu gofyn i'r myfyrwyr ei ailgyflwyno neu ystyried a yw'r sgôr yn debygol o gynyddu'n sylweddol os gwneir ychydig o fân newidiadau. Yn nes ymlaen yn y prosiect, gallech wahodd cynulleidfa allanol i farnu prototeip, ac os bydd yn penderfynu bod gormod o ddiffygion dylunio gallai'r syniad gael ei wrthod. Yn fyr, gallwch gyfuno dibenion crynodol a ffurfiannol yn ôl eich anghenion.

⁹ Cysyniadau proses yn seiliedig ar Gorman, T. (2007) Innovation, Adams Media. You can find information on innovation at: <https://www.ideo.com/>



Helpu gyda syniadau a chyfleoedd

- If I look at this from another angle, then...
- Os edrychaf ar hyn o ongl arall, yna...
- Un ffordd y gallwn wella fy syniad yw trwy ...
- Eth fyddai'n digwydd pe baem ... yn gwneud y cynnyrch hwn yn llai/fwy ... yn cael mwy/llai o'r cynnyrch?
- Os byddaf yn cyfuno hyn a'r llall yna ...
- Wrth edrych ar hyn eto, sylwais fod ...

Helpu gydag adnoddau

- I can see how our idea has grown from...to...
- Gallwn geisio gofyn...
- Gwefan ddefnyddiol iawn yw ...
- Yr unigolyn â'm helpodd fwyaf yn y prosiect oedd ... oherwydd ...
- Nid yw'r adnodd hwn gennyf, ond beth petawn yn ceisio ...
- Pwy arall sydd wedi cael y broblem hon? Beth yr oedd wedi ei wneud?
- Sut y gallwn wneud hyn yn gyflymach trwy ddefnyddio technolegau?
- Beth pe baem yn dod at ein gilydd ac yn rhannu'r adnodd hwn?
- A yw hyn yn ddiogel?
- Os byddaf yn defnyddio'r adnoddau hyn 'nawr, beth am ...
- A yw hyn o fewn ein cyllideb?
- Ai dyma'r ffordd orau o ddefnyddio ein hamser?


Helpu i roi syniadau ar waith

- I could try asking...
- Gallaf weld sut y mae ein syniad wedi tyfu o ... i ...
- Efallai nad aeth pethau yn unol â'r cynllun, ond roeddem wedi dysgu ...
- Nid wyf yn credu bod hwn yn gynllun busnes da oherwydd ...
- Os byddwn yn ... newid trefn pethau ... efallai y bydd pethau'n cyflymu
- A allech egluro pam yr ydych yn meddwl ... bod gormod o risg?
- Credaf y bydd y syniad hwn yn apelio oherwydd...
- Credaf ein bod yn cydweithio'n dda, ond a allem ...
- Rwy'n hoffi'r awgrym hwn ar gyfer cyflwyno ein syniad oherwydd...
- Sut y gwyddom y gallai hyn weithio?
- Beth ddigwyddodd y tro diwethaf?

Ffigur 4.1. Enghreifftiau o fframiau siarad ar gyfer dysgu entrepreneuriaidd yn gysylltiedig ag EntreComp



Er y dylai'r myfyrwyr chwarae rhan gynyddol ragweithiol wrth asesu eu cynnydd eu hunain, nid yw hyn yn golygu trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb am asesu i'r myfyrwyr. Mae Penaluna a Penaluna yn nodi cyfeiriad y daith yn fras iawn, ac yn awgrymu y dylid symud asesu o bedagogeg sy'n canolbwyntio ar yr athro tuag at rywffaint o hunanbenderfyniad myfyrwyr (andragogeg) ac yna hewtagogeg dan arweiniad y myfyrwyr, lle mae'r myfyriwr yn cael ei weld fel dysgwr annibynnol sy'n gofyn am arweiniad ac yn trafod mynediad at adnoddau dysgu.¹⁰



Ffigur 4.2 Dilyniant yn y cyfrifoldeb am asesu

Y brif neges ar ddiwedd yr adran hon yw bod lle i 'asesu dysgu', 'asesu ar gyfer dysgu' ac 'asesu fel cyfleoedd dysgu' mewn addysg entrepreneuriaeth. Gall asesu crynodol ddarparu gwybodaeth i alluogi cydweithwyr, rhieni, cyflogwyr ac eraill i gefnogi myfyrwyr yng nghan nesaf eu datblygiad. Trwy rannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant, ynghyd ag adborth effeithiol (a drafodir yn yr adran nesaf), gall myfyrwyr gynyddu eu hymwybyddiaeth eu hunain o'r modd y gallant wella. Mae yna lawer o strategaethau ffurfiannol y gellir eu haddasu i gefnogi dysgu entrepreneuriaidd (gweler Tasg 4.1). A thrwy ddatblygu capasiti myfyrwyr ar gyfer hunanasesu gallant fod yn adfyfyriol ac yn gynyddol annibynnol yn eu dysgu entrepreneuriaidd.

10 Penaluna, A., & Penaluna, K. (2015). Thematic paper on entrepreneurial education in practice. Part 2. Building motivation and competencies. Available at: [http://www.oecd.org/cfe/leed/ Entrepreneurial-Education-Practice-pt2.pdf](http://www.oecd.org/cfe/leed/Entrepreneurial-Education-Practice-pt2.pdf).



ACTIVITY

WATCH: Stacey Young talks about a practical example of assessment

Gwylwch fideo gyda Stacey Young, gan rannu ei phrofiad o ffordd ymarferol i wneud cymwyseddau'n weladwy i ddysgwyr a chynnwys rhanddeiliaid o'r tu allan i'r ysgol i mewn i asesiad dysgwyr.



Link: <https://youtu.be/OtLSrxxoWCY>

LoopMe Tasg Grwp Fforwm 4.1: EntreAssess

ARCHWILIO: Archwilio'r Offeryn Myfyrio EntreAssess ar gyfer Athrawon Offeryn yw hwn sy'n eich galluogi i fyfyrwyr ar y beth, y ble, y pryd, y pwy a'r pam o ran eich dulliau asesu. Mae'r offeryn yn cynnig adborth ar eich atebion, ynghyd â syniadau ar gyfer y camau nesaf. Byddwch yn dod o hyd i awgrymiadau o ran dysgu ac asesu, yn ogystal â syniadau ynghylch sicrhau ei fod yn gyfeillgar i'w ddefnyddio ar-lein.

Dolen i SurveyAnyplace: NOT AVAILABLE YET



MYFYRIO: Defnyddiwch yr offeryn i nodi ffordd newydd ychwanegol o gynnal asesiadau.

ADRODDIAD GRWP FFORWM: Rhannwch eich adborth ar yr offeryn hwn yn y Fforwm Grŵp.

LoopMe Tasg Unigol 4.1: Eich dysgeidiaeth

GWEITHREDU; Ewch ati i roi dull asesu newydd ar waith yn eich addysgu – naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein – dull nad ydych wedi'i ddefnyddio o'r blaen.

MYFYRIO: Myfyriwch ar y cwestiynau canlynol:

- Pa gymwyseddau y bu i chi eu hasesu?
- Sut y bu i chi eu hasesu?
- Beth oedd wedi gweithio'n dda?
- Beth y byddech yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

ADRODDIAD HYFFORDDWR - Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yma yn LoopMe - cliciwch ar y botwm 'Adroddiad' isod.



4.2 Rhannu adborth ar ddysgu entrepreneuriaidd

Beth yn eich barn chi sydd ymhlith y pethau pwysicaf y gallwch eu gwneud i helpu myfyrwyr i wella eu dysgu, beth bynnag eu hoedran neu eu gallu, a beth bynnag yw'r pwnc yr ydych yn ei addysgu?

Mae ymchwilwyr yn dweud wrthym mai un o'r ffactorau pwysicaf yw bod myfyrwyr yn cael y math priodol o adborth ynglŷn â sut y maent yn dod yn eu blaenau.¹¹ Yn syml iawn, mae adborth i fyfyrwyr yn golygu unrhyw wybodaeth y maent yn ei chael amdanynt hwy eu hunain. Mae cael y math priodol o adborth yn bwysig ym mhob maes, hynny yw, adborth clir, cryno ac amserol sy'n helpu i symud y dysgu yn ei flaen. Ar y llaw arall, gall canlyniadau adborth ansensitif, amwys neu anghywir, sydd wedi'i amseru'n wael, fod yn drychinebus. Gall gweithwyr gael eu dadrithio a mynd yn bryderus ac yn ansicr, gall cwsmeriaid golli hyder a mynd i rywle arall, gall rheolwyr golli parch ac, yn y pen draw, gall busnes fynd i'r wal. Yn yr un modd, gall myfyrwyr nad ydynt yn cael adborth o safon ei chael yn anodd gwneud cynnydd. Yn wir, adborth yw'r ysgogydd pwysicaf er mwyn gwella dysgu.¹² Nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth pa oedran yr ydych yn ei addysgu na beth yw'r pwnc.

Un o'r rhesymau pam y mae unigolion yn cyrraedd y brig yn eu proffesiwn (boed yn chwaraeon neu'n ffiseg niwclear) yw oherwydd eu bod yn chwilio am adborth o safon ac yn ymateb i adborth o'r fath. Dyma un o'r prif negeseuon o ymchwil ar ymarfer bwriadol, a drafodir ym Modiwl 5.¹³ Mae angen mwy na thalent ac ymdrech. Gall hyfforddwyr medrus wneud gwahaniaeth mawr er bod y mathau o adborth y maent yn ei roi yn amrywio. Nid yw hyfforddwyr futsal (pêl-droed dan do) mwyaf llwyddiannus Brasil yn stopio sesiynau er mwyn addysgu sgiliau penodol, rhoi canmoliaeth neu gynnig beirniadaeth, yn unol â doethineb

11 Hattie, J. and Timperley, H. (2007) 'The Power of Feedback' Review of Educational Research March 2007, 77 (1), pp. 81-112.

12 Hattie, J. (1999). Influences on Student Learning. Auckland: University of Auckland.

13 Ericsson, A. and Pool, R. (2017) Peak: How all of us can achieve extraordinary things, Vintage Books.



confensiynol sesiynau hyfforddi pêl-droed. Yn hytrach, maent yn gadael i'r chwaraewyr ymroi i'r dasg a chwarae ar gyflymder gwyllt. Mae'r hyfforddwyr, fodd bynnag, yn gwylio'n ofalus ac efallai y byddant yn cynnig gwên neu ystum arall, ond dim llawer mwy. Ar wahân i godi'r bêl os nad yw symudiad yn gweithio. Mae agwedd mor hamddenol yn hollol wahanol i'r ffordd y mae chwaraewyr ffidil talentog Japan yn cael eu hyfforddi. Ni chânt chwarae nodyn nes byddant wedi treulio wythnosau'n dysgu sut i ddal y bwa a'r ffidil. Er bod y ddwy arddull yn wahanol iawn, mae'r ddwy dechneg hyfforddi wedi profi'n effeithiol iawn oherwydd eu bod yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'r tasgau dan sylw.¹⁴

Gall adborth i fyfyrwyr fod ar sawl ffurf, yn amrywio o nòd neu wg yn y wers i ganmoliaeth, gwaith wedi'i farcio, awgrymiadau, cywiriadau a chadarnhad. Mae'r rhain yn fwy effeithiol na mathau eraill, er enghraifft gwobrau a chosbau.¹⁵ Dengys astudiaethau o'r adborth mwyaf effeithiol ¹⁶ fod yna dri math o adborth:

- Gwerthfawrogi – i ddiolch, ysgogi a chysylltu â rhywun
- Hyfforddi – i ehangu gwybodaeth neu wella sgiliau
- Gwerthuso – i fesur neu gymharu â set o safonau

Mae'r tri math o adborth yn bwysig, pa un a yw'r sawl sy'n ei gael yn fyfyrwr, yn athro neu'n entrepreneur profiadol. O safbwynt seicolegol, mae pob un ohonom am deimlo'n fwy hyderus (gwerthfawrogi), deall lle a sut y gallwn wella (hyfforddi) a gwybod lle rydym yn sefyll (gwerthuso).

Mae adborth effeithiol yn broses ddwy ffordd. Mewn cyd-destunau busnes, mae'n ymwneud i raddau helaeth â gwrando ar yr hyn sydd gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i'w ddweud a phwyso a mesur yr ymateb mwyaf priodol. Ym maes addysg, gall rhyngweithio o'r fath ddigwydd mewn ffurfiau amrywiol, e.e. yn

14 Coyle, D. (2010) *The Talent Code: Greatest Isn't Born, Arrow*.

15 Hattie, J. and Timperley, H. (2007) 'The Power of Feedback' *Review of Educational Research*, 77(1), 81-112.

16 Stone, D. and Heen, S. (2014) *Thanks for the Feedback, Portfolio*.



ystod gwaith grŵp mewn gwerns gallai fod yn godi bawd, gair o anogaeth, cwestiwn, dangos diddordeb, cyfarwyddyd i edrych ar ddeunydd cyfeiriol, eistedd wrth ochr y grŵp, neu sylw ysgrifenedig. Mae yna arwyddocâd ychwanegol i adborth o'r fath mewn prosiectau entrepreneuriaidd oherwydd bod y pwyslais ar y 'broses' o roi adborth, yn hytrach na'r dasg ei hun. Mewn geiriau eraill, y cymwyseddau y mae'r myfyrwyr yn eu harddangos neu'n symud tuag atynt.

Ond beth y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol? Beth y byddech yn ei weld a'i glywed mewn ystafelloedd dosbarth lle ceir adborth effeithiol ar ddysgu entrepreneuriaidd? (Tabl 4.4).

Byddech yn gweld	Byddech yn clywed
<ul style="list-style-type: none"> • Myfyrwyr yn cynhyrchu syniadau mewn ffordd gydweithredol, agored a chefnogol (1.2, Creadigrwydd) • Myfyrwyr â hyder i herio eu safbwyntiau ei gilydd a mynegi barn (1.4, Rhoi gwerth ar syniadau) • Myfyrwyr yn gwirio eu cynnydd eu hunain tuag at amcanion dysgu entrepreneuriaidd gan ddefnyddio canllawiau asesu a rhestrau gwirio (2.1, Hunanymwybyddiaeth a hunaneffeithlonrwydd) • Arddangosfeydd ystafell ddosbarth yn cynnwys posteri, dyfyniadau ysgogiadol ac eitemau gweledol eraill 	<ul style="list-style-type: none"> • Students asking 'why' and 'how' questions about their ideas to each other and the teacher (1.4, Valuing ideas) • Myfyrwyr yn gofyn cwestiynau 'pam' a 'sut' ynglŷn â'u syniadau i'w gilydd ac i'r athro (1.4, Rhoi gwerth ar syniadau) • Iaith asesu entrepreneuriaidd yn cael ei defnyddio gan athrawon a myfyrwyr sy'n cydweithio, e.e. 'nodau', ffocws', 'dal ati', 'blaenoriaethu', 'tria ffordd wahanol', 'rho gynnig arni', 'ffurfio tîm' (3.4, Gweithio gydag eraill) • Athrawon yn ysbrydoli myfyrwyr trwy amrywio rheolaeth llais er mwyn cadw



<p>sy'n cynnig arweiniad ynghylch pam y mae'n werth dyfalbarhau, hyd yn oed pan fo rhwystrau'n codi (2.2, Cymhelliad a dyfalbarhad)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau'n cael eu casglu a'u trin mewn modd priodol (2.3, Rhoi adnoddau ar waith) • Athrawon yn eu hadleoli eu hunain yn ystod y wers ac yn defnyddio ystumiau dieiriau i gynnal diddordeb a chymhelliant myfyrwyr (2.2, Cymhelliad a dyfalbarhad) 	<p>myfyrwyr ar y trywydd cywir i gyflawni canlyniadau bwriadedig (2.5, Cynnull eraill)</p>
--	--

Tabl 4.4. Arwyddion gweladwy a chlywadwy adborth effeithiol ar ddysgu entrepreneuraidd (cymwyseddu EntreComp mewn cromfachau)

Mae yna rywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod adborth llafar yn fwy effeithiol nag adborth ysgrifenedig oherwydd ei uniongyrchedd ac oherwydd y cyfle y mae hyn yn ei roi i fyfyrwyr gywiro eu gwaith.¹⁷ Fodd bynnag, mae adborth ysgrifenedig yn darparu cofnod y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol tra gall adborth llafar ddibynnu ar y cof. Cyfuno'r ddau fath wrth fonitro cynnydd myfyrwyr yw'r dull mwyaf effeithiol, a gellir cyflymu hyn trwy ddefnyddio symbolau mewn cynllun marcio.

Mewn cyd-destunau entrepreneuraidd, un ffordd o edrych ar adborth yw trwy ei ystyried fel continwwm:

Cydgyfeiriol	Dargyfeiriol
Dan gyfarwyddyd yr athro	Hyrwyddol

¹⁷ Brooks, V. (2002) Assessment in Secondary Schools, Gwasg y Brifysgol Agored.



Canolbwyntio ar dasg broses

Canolbwyntio ar

Un ateb

Nifer o atebion

Blwch 2 Adborth fel continwwm

Dylai adborth (eich adborth eich hun ac adborth gan y myfyrwyr) ar fod yn entrepreneuraidd symud tuag at ochr dde'r continwwm. Mae'r athro yn mabwysiadu rôl hyrwyddol ac yn ceisio meithrin hunanddisgyblaeth ymhlith myfyrwyr er mwyn iddynt allu rheoli eu syniadau eu hunain. Nid tynnu myfyrwyr tuag at un ateb cywir trwy gywiro eu camgymeriadau yw'r nod. Yn hytrach, mae'r athro yn mabwysiadu rôl fwy heriog trwy annog myfyrwyr i ystyried nifer o safbwyntiau gwahanol a'r posibilrwydd o nifer atebion i broblem. Canolbwyntir ar y sgiliau a'r agweddau sy'n cael eu meithrin yn ystod y broses o ddatblygu syniadau yn hytrach na chwblhau tasg benodol.

Tybiwch eich bod yn rhoi her i'r myfyrwyr, ac yn gofyn iddynt gynllunio bag siopa newydd.¹⁸ Gallech rannu meini prawf asesu â'r myfyrwyr, sydd er enghraifft yn canolbwyntio ar wreiddioldeb y syniad, ansawdd y dyluniad ac, os yw'n ymarferiad cydweithredol, pa mor dda y mae'r myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd. Byddai'r adborth yn canolbwyntio ar y graddau y mae'r myfyrwyr yn amlygu cymwyseddau o'r fath.

Fodd bynnag, gallech hefyd ailfframio'r broblem gychwynol. Yn hytrach na gosod y dasg o ddylunio bag siopa newydd, gallech gymryd ongl wahanol a meddwl sut y gellid cael nwyddau o'r siop i gartref y cwsmer. Efallai y bydd rhai

¹⁸ This idea is discussed in detail by Alesina, I. And Lupton, E. (2010) Exploring Materials. Creative Design for Everyday Objects, Princetown Architectural Press.



myfyrwyr yn dychmygu mynd â nwyddau adref ar eu cefnau, ar eu pennau (fel sy'n digwydd mewn rhai gwledydd) neu mewn bag sydd ag olwynion.



Yna mae'r adborth yn dod yn sgwrs ddwy ffordd â'r myfyrwyr, lle rydych yn arwain y myfyrwyr i symud oddi wrth ateb cyfyng tuag at safbwyntiau ehangach a mwy penagored – meddwl y tu allan i'r bag! Mae hyn yn adlewyrchu profiadau entrepreneuriaid yn y byd go iawn. Yn yr enghraifft arbennig hon, mae hyn wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau danfon i'r cartref a siopa ar-lein. Yn y sgwrs adborth, efallai y bydd y myfyrwyr yn awgrymu edrych ar y broblem:

- safbwynt amgylcheddol, h.y. sut i leihau gwastraff
- safbwynt y dyfodol – sut y gallai nwyddau gael eu cludo yn 2030
- safbwynt ffermwyr – sut i gael cynnyrch ffres i'r cwsmer yn gyflym (heb y manwerthwr?)
- safbwynt 'profiad siopa' – a fyddai cwsmeriaid yn dod â'u bagiau eu hunain pe baent yn cael eu hysgogi i wneud hynny
- safbwynt meddylfryd dylunio – canolbwyntio ar wahanol ddeunyddiau, meintiau, siapiau a lliwiau

Yn dilyn hyn, ni ddylai'r adborth fod yn broses linellol, un cyfeiriad. Dylai'r myfyrwyr deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd i awgrymu syniadau, chwarae â'u syniadau, gwneud camgymeriadau a chynnig adborth i'w gilydd ac i'r athro.



Pwnc Fforwm LoopMe 4.2: Rhoi adborth

Meddyliwch am y tro diwethaf y bu i chi roi adborth i fyfyrwyr. A oeddech wedi cynnwys pob un o'r tair elfen: gwerthfawrogi, hyfforddi a gwerthuso?

Pa elfen yw'r un anoddaf i'w chynnwys yn yr asesiad, yn eich barn chi? Pam?

Rhannwch eich myfyrdodau yn FFORWM ENTRECOMPEDU

Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 4.2.1: Effeithiau negyddol adborth

Ym mha amgylchiadau y gallai adborth gael effeithiau negyddol a pha dechnegau y gallwch eu cymhwyso wrth roi adborth ar ddysgu entrepreneuriaidd myfyrwyr?

Gall y crynodeb hwn o dystiolaeth ynglŷn â phwysigrwydd rhoi adborth o safon i fyfyrwyr eich helpu i feddwl:

<https://educationendowmentfoundation.org.uk/index.php?/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/feedback/>

(Sylwer: mae'r testun yn Saesneg – defnyddiwch Google Chrome i gael cyfieithiad awtomatig os oes angen)

Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yn Nhasg 4.2.1 Modiwl 4 ENTRECOMPEDU



Tasg Hyfforddi LoopMe 4.2: Adborth sy'n gweddu i ddysgu entrepreneuriaidd

Pa un o'r ffigurau isod sy'n crynhoi'r math o adborth sy'n digwydd yn eich dosbarth chi orau (A, B neu C)? Pa un sy'n gweddu orau i ddysgu entrepreneuriaidd, yn eich barn chi?



A



B



C

Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yn Nhasg 4.2 Modiwl 4 ENTRECOMPEDU



4.3 Dathlu cynnydd a chyflawniad

Mae neilltuo amser i ddathlu cyflawniadau yn gallu bod yn fuddiol iawn. O safbwynt seicolegol, mae'r corff yn rhyddhau endorffinau sy'n ysgogi teimladau cadarnhaol. Mae dathlu'r hyn a gyflawnwyd yn atgyfnerthu'r ymddygiadau sy'n ddymunol wrth wynebu heriau newydd. Ceir budd cymdeithasol hefyd. Gall rhannu llwyddiant fel tîm gryfhau cysylltiadau a theimlad o agosatrwydd. Dangosodd seicolegwyr fod yr effeithiau cadarnhaol ar y ffordd rydym yn teimlo wrth rannu newyddion da â phobl eraill yn ymestyn y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun. A phan fydd dathliadau o'r fath yn cael derbyniad da, mae'r enillion yn fwy fyth.¹⁹ Ym maes addysg, gall peidio â dathlu olygu bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu. Byddant yn teimlo'n siomedig neu'n wag. O ystyried y cefndir hwn, mae'n hanfodol dathlu cynnydd a chyflawniadau myfyrwyr mewn dysgu entrepreneuriaidd, hyd yn oed pan fo'r enillion yn ymddangos yn fach (gweler Mynd yn Ddyfnach 4.3).



¹⁹ Gable, S. et al., (2004) 'What Do You Do When Things Go Right? The Intrapersonal and Interpersonal Benefits of Sharing Positive Events', *Journal of Personality and Social Psychology*, 87, No. 2, 228–24.



Dylai bod yn entrepreneuriaidd ysgogi'r profiad o bleser a llawenydd. Ni ddylai myfyrwyr ei gymharu ag ymdrech benderfynol i sicrhau enillion ariannol. Mae ymchwil yn awgrymu nad arian sy'n gyrru'r rhan fwyaf o entrepreneuriaid yn eu blaen ond cyffro cystadleuaeth, yr awch i archwilio, y pleser o greu, y bodlonrwydd o adeiladu tîm ac, yn y bôn, awydd i roi ystyr i fywyd.²⁰ Mae hyn yn debyg i raddau helaeth i ddamcaniaeth Abraham Maslow ynglŷn â chymhelliant (sy'n anelu'n bennaf at edmygedd a hunansylweddoliad) a syniad Mihaly Csikszentmihályi mai 'llif' yw cyfrinach hapusrwydd (hynny yw, y syniad eich bod wedi ymgolli cymaint yn yr hyn yr ydych yn ei wneud nes bod amser yn hedfan.

Mae dathlu cyflawniadau entrepreneuriaidd yn hanfodol. Oherwydd prysurdeb ysgolion a cholegau, weithiau'n mae'n hawdd peidio â sylwi ar y llwyddiannau bychain a brofir bob dydd. Mae Andy Hargreaves yn galw ar weithwyr proffesiynol i fynd ati i 'godi sgysiau' gyda'u cydweithwyr mewn ffyrdd sydd hefyd o fudd i fyfyrwyr.²¹ Yn ôl Hargreaves, os gofynnwch i enillwyr cystadlaethau Athro/Athrawes y Flwyddyn beth oedd canlyniad eu dyrchafu, bydd llawer yn dweud eu bod wedi cael eu hanwybyddu gan eu cydweithwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn credu eu bod yn haeddu cydnabyddiaeth am eu gwaith caled ac yn cael anhawster derbyn pam y dylai un gael ei roi ar bedestal uwchben y lleill. Er hyn, gall cydnabod llwyddiant ar y cyd (ar wahanol ffurfiau) godi hwyliu athrawon a myfyrwyr.

20 <https://www.forbes.com/sites/groupthink/2013/02/13/what-drives-the-best-entrepreneurs-hint-its-not-money/#3869fc3a4348>

21 Hargreaves, A. (2017 yn Wallace, I. a Kirkman, L. *Progress*, Crown House, t.146



Gall adrodd am lwyddiant entrepreneuriaidd myfyrwyr ddigwydd mewn ffyrdd amrywiol, yn ychwanegol at sylwadau ysgrifenedig arferol a roddir i athrawon, cyflogwyr neu rieni. Mae defnydd llawer o ysgolion ledled Ewrop o'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Edmodo, Google Plus) yn ffordd amlwg o ddathlu cyflawniadau myfyrwyr, ac yn un sy'n arwain at drafodaeth ac adborth sydyn.²² Gall y myfyrwyr eu hunain fod yn gyfrifol am ystyried sut y maent yn rhagweld y byddant yn rhannu canlyniadau eu gwaith a sut y bydd y gynulleidfa'n penderfynu ynglŷn â'r cyflwyniad a'r cynnwys.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer rhannu newyddion a dathlu cyflawniadau mewn addysg entrepreneuriaidd (addysgu a dysgu):

Postio digwyddiadau megis ffeiriau menter ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr ysgol

Anfon nodyn diolch neu ffonio'r rhieni i sôn am agweddau neu gyflawniadau cadarnhaol eu plant

Cysylltu â'r papur newydd lleol ac ysgrifennu darn am y prosiect gyda'r myfyrwyr

Cysylltu â busnes lleol sy'n berthnasol i unrhyw brosiect entrepreneuriaidd i weld a allwch drefnu bod gwaith myfyrwyr yn cael ei arddangos yno neu ar eu gwefan

Edrych ar y posibilrwydd o gyfnewid syniadau gydag ysgol arall yn y DU neu dramor

Ymweld â'r llyfrgell leol, neuadd y dref, swyddfeydd y cyngor, archfarchnadoedd, ac ati, i weld a oes cyfleoedd i arddangos gwaith myfyrwyr

²² Rhagor o enghreifftiau yn <https://www.commonsense.org/education/top-picks/social-networks-for-students-and-teachers>



Cysylltu â phrifysgolion lleol ac archwilio cysylltiadau posibl â darpar athrawon sy'n cefnogi eich prosiectau

Trefnu wythnos menter myfyrwyr yn seiliedig ar thema, e.e. 'Byw'n lach', 'Gofalu am ein Cymuned', neu efallai i gyd-fynd â phen-blwydd arbennig ac annog pawb i gyfrannu eu syniadau. Gallech annog myfyrwyr i fod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad. Gallech hefyd arddangos syniadau yn yr ysgol neu yn neuadd y dref a gwahodd rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned.

Pwnc Fforwm LoopMe 4.3: Sut i ddathlu dysgu?

Mae rhannu newyddion a dathlu llwyddiannau yn fwy na dim ond dathlu llwyddiant, mae'n ymwneud â dathlu dysgu, a gall dysgu ddigwydd trwy'r profiad o weithio trwy anawsterau mewn gweithgaredd neu brosiect, neu wrth fethu gwneud rhywbeth, neu hyd yn oed wrth fethu'n lân â chyflawni'r dasg. A yw'n fethiant os ydym yn dysgu ohono?

Sut y gallwn ddathlu dysgu o bob math – gan gynnwys methiant?!

Rhannwch eich myfyrdodau yn FFORWM ENTRECOMPEDU

LoopMe Tasg Unigol 4.3: Cynllunio gweithgaredd syml

CYNLLUNIO: Gan ddefnyddio eich syniad, cynlluniwch weithgaredd syml ar gyfer eich addysgu – gallwch naill ai (1.) Trafod hyn â chyd-weithiwr – rhannwch syniadau ynghylch y modd i ddathlu cynnydd o ran dysgu mewn ffordd well neu (2.) Mynd ati i gynnal y gweithgaredd gyda'ch dysgwyr.

Defnyddiwch y cynllunydd gweithgareddau, EntreComp yn Eich Gwaith Addysgu.

Dolen i SurveyAnyplace



MYFYRIO: Myfyriwch ar y profiad.

- Beth a oedd i'w ddisgwyl?
- Beth a oedd yn annisgwyl?
- Beth y byddech yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

ADRODDIAD HYFFORDDWR: Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yma yn LoopMe

